



Rhywiol

Gweithgaredd 5: Dangosyddion cam-drin / niwed / esgeulustod

Categori Cam-Drin: Rhywiol

- achos o dreisio ac ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol na wnaeth neu na all yr oedolyn gydsynio iddynt ac / neu a fu dan bwysau i gydsynio iddynt
- ni all plentyn dan 13 oed gydsynio i weithred rhywiol.

DANGOSYDDION

Corfforol

- cael trafferth cerdded neu eistedd
- dillad isaf wedi rhwygo neu'n waedlyd
- staen semen ar ddillad
- poen, anghysur neu gosi yn ardal yr organau cenhedlu
- anaf anesboniadwy i'r organau cenhedlu, y wain, yr anws neu'r geg
- cleisiau dwyochrol i'r cluniau, pen ôl neu ben y gluniau
- olion atal ar arddyrnau, coesau neu'r gwddf
- heintiad ar y llwybr wrinol yn gyson
- rhwyg yn ffrwynyn neu feinwe'r pidyn
- marciau brathu (love bites)
- beichiogrwydd.

Emosiynol

- gofidus
- dagreuol
- dryslyd
- ofnus
- hunan-barch isel
- teimlo'n euog, cywilydd
- teimlo'n ddi-werth neu'n fregus
- encilio
- gwylltineb

Ymddygiad

- insomnia / diffyg cwsg
- gwingo neu gilio oddi wrth bob cysylltiad corfforol
- ymddwyn yn or-gariadus
- ymddygiad / iaith / chwarae o natur rywiol amlwg
- arwyddion o berthynas losgachol
- gwlychu'r gwely, ymddygiad ymosodol, hunan-niweidio neu gynnu tân
- patrymau cysgu aflonydd

- ofni archwiliadau meddygol, neu fod y gofalwr yn rhwystro archwiliadau
- colli neu fagu cryn dipyn o bwysau
- mae'r camdriniwr honedig yn annog yr unigolyn i wisgo neu ddefnyddio colur amhriodol i'w oedran
- mae'n ceisio edrych yn hyll; hylendid gwael; dillad rhyfedd
- rhedeg i ffwrdd neu ddim eisiau mynd yn ôl adref.

Cymdeithasol

- ynysig, dim grwpiau cyfoedion / cyfeillion neu weithgareddau cymdeithasol / diwylliannol
- mae'r camdriniwr honedig yn rheoli gweithgareddau a chysylltiadau cymdeithasol
- amharod i groesawu ymwelwyr i'r cartref
- ymddwyn yn ofnus neu'n dawedog iawn yng nghwmni unigolyn neu mewn lle penodol
- rhoddion, arian, gemau, persawr anesboniadwy
- amharod i ddweud ble mae'n mynd, neu gyda phwy
- ymddwyn yn gyfrinachol, gorbryderus neu'n wahanol ar-lein.

LLE ALLAI HYN DDIGWYDD?

- cartref yr unigolyn dan sylw
- cartref gofal preswyl
- cartref nyrsio
- ysbyty
- ysgol / coleg
- canolfan gofal dydd
- meithrinfa
- gwarchodwyr plant
- llety gwarchod
- cartref perthynas
- lle cyhoeddus.

PWY ALL FOD YN GYFRIFOL NEU'N ACHOSI HYN?

- gofalwr cartref
- gofalwr preswyl
- perthynas / rhiant / plentyn / gŵr neu wraig / gofalwr arall
- gweithiwr cymorth
- gweithiwr proffesiynol
- ffrind i'r teulu / cymydog
- dieithryn.